ADNABOD GOLYGYDD


2025

# Llŷr Titus















**Dwedwch ychydig wrthym am y llyfr?**
Mae *Cymry Balch Ifanc* yn gasgliad o straeon pobl ifanc cwiar o Gymru. Mae'r gyfrol yn rhoi cyfle i ddod i adnabod pob math o bobl ifanc LHDTCRA+ ar draws Cymru, ac mae'r lluniau'n wych hefyd!

**Sut brofiad oedd golygu'r llyfr?**
Hyfryd iawn. Roedd gallu bwrw iddi i olygu llyfr fyddai wedi fy helpu taswn i wedi ei ddarllen pan oeddwn i yn ieuengach yn fraint fawr.

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Geni yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, a fy magu yn Llŷn – a dwi'n byw yno o hyd.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Mi oeddwn i'n hoff iawn o actio, canu, darllen, chwarae gyda fy ffrindiau a sgwennu straeon – doeddwn i ddim yn dda iawn am wneud chwaraeon.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Doedd gen i ddim syniad – dwi wedi bod eisiau bod yn gogydd, milfeddyg, gweinidog a llawer o bethau eraill, a sgwennwr hefyd. Dwi'n lwcus 'mod i'n gallu gwneud mymryn o hynny (a choginio adref!) ar hyn o bryd.

**Beth yw eich diddordebau?**
Dwi'n hoff iawn o gerdded, garddio, rhoi mwythau i'r gath a rhwymo llyfrau hefyd.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Y bobl o fy nghwmpas i, a bwyd da.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Mae agweddau hen ffasiwn pobl at y gymuned LHDTCRA+ yn dân ar fy nghroen i.

**Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Fedra i'm cofio amser lle doeddwn i ddim am sgwennu.

**Oes yna themâu / pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Oes, straeon lleiafrifol gan gynnwys rhai LHDTCRA+, ffuglen wyddonol, ffantasi, ac arswyd.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Cymerwch olwg ar be arall sydd allan yna a be sydd wedi dod o'ch blaen, un ai fel ysbrydoliaeth neu er mwyn dechrau meddwl, 'mi fedrwn i wneud yn well na hwnna!'

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn olygydd?**
Awduron. Nhw ydi'r peth gorau yn aml iawn, ond weithiau os ydi'r golygydd a'r awdur yn styfnig mae hi'n gallu mynd yn drafodaeth reit frwd...

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Taid a'r Sosej*.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Samuel Vimes, o gyfres The Watch gan Terry Pratchett.

**Hoff le?**
O flaen tân efo'r gath.

**Hoff fwyd?**
Mae hi'n dibynnu ar y diwrnod. Cinio Dolig, falla.

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**
Unrhyw beth gan Studio Ghibli.

**Hoff air?**
'Sbeuna' – gair Pen Llŷn am chwilota neu dyrchu drwy ddroriau; dyna fydda i'n ei wneud wrth sgwennu a golygu yn aml iawn.

**Superpower o ddewis?**
Gallu ymddangos yn unrhyw le y baswn i eisiau – mi arbedith ffortiwn i mi ar bres petrol!

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Does yna'r un ohonyn nhw'n gall iawn, yn anffodus.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Gweld y dyddiau'n mynd yn hirach ar ôl y gaeaf.

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Garddwr.

**Top tip i ddarpar olygyddion:**
Cofiwch ddarllen, cofiwch wrando a thrafod.